


papur



priordy



**CANYS FELLY Y CARODD DUW Y BYD, FEL Y
RHODDODD EFE EI UNIG ANEDIG FAB, FEL NA
CHOLLER PWY BYNNAG A GREDO YNDDO EF,
OND CAFFAEL OHONO FYWYD TRAGWYDDOL.**

Ioan 3:16

*Dewiswyd gan Luned Thomas, Clos y Ffynnon.
Gweler y tu mewn am ei rheswm dros ei dewis*

**Rhifyn 309
PAPUR MAWRTH 2018**

GAIR GAN EIN GWEINIDOG

Billy Graham

DAETH y newyddion am farwolaeth un o bregethwyr mwyaf dylanwadol yr ugeinfred ganrif, sef Billy Graham a fu farw yn ei gartref yn Montreat, Gogledd Carolina ar 21 Chwefror yn 99 oed.



Bu'n cyhoeddi newyddion da'r Efengyl i gannoedd o filiynau o bobl yn ystod trigain mlynedd ei yrfa.

Cafodd ei eni ar fferm odro yn Charlotte, Gogledd Carolina yn y flwyddyn 1918 a daeth yn Gristion ymroddedig yn 16 oed ar ôl gwranddo ar Efenglydd teithiol yn pregethu. Ordeiniwyd ef yn Weinidog yn 1939 yn 21 oed.



Codwyd ei broffil cyhoeddus yn America wedi iddo

weinidogaethu i filoedd ar filoedd o bobl mewn pabell enfawr yn Los Angeles yn 1949.

Roedd yn gefnogwr brwd i hawliau sifil a gwrthododd bregethu i gynulleidfaoedd a oedd wedi eu rhannu yn ôl lliw eu croen. Mewn un digwyddiad yn Tennessee ym 1953, symudodd Graham y rhaff a oedd yn gwahanu'r bobl dduon oddi wrth y bobl wynion yn ei gynulleidfa.

Ehangodd ei waith efengyl y tu hwnt i UDA wrth gynnal ei ddigwyddiad cenhadol cyntaf yn Llundain yn y flwyddyn 1954. Aeth ei waith ag ef i bedwar ban byd lle bu'n annerch torfeydd enfawr. Ymhlith y rhai a ddaeth dan ei ddylanwad ac a drodd at

Grist yn dilyn ei ymweliad â Llundain ym 1966 oedd Syr Cliff Richard.

Pregethodd ei bregeth olaf yn Efrog Newydd yn 2005 ac yntau'n 86 oed.

Serch ei boblogrwydd mawr, nid oedd ei safbwynt diwinyddol at ddant pawb ac nid pawb oedd yn cytuno â'r syniad o efengylu torfol.



Ond rhaid edmygu Billy Graham yn fawr iawn am iddo gyrraedd miliynau o addolwyr drwy gyfrwng y teledu - y cyntaf i ddefnyddio'r cyfrwng hwn i gyfleu'r neges Gristnogol ar raddfa mor eang.

PE BAI e'n cychwyn o'r newydd heddiw, mae'n sicr y byddai ar flaen y gad yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Onid yw hi'n bwysig manteisio ar y cyfryngau diweddaraf i ledanu newyddion da'r Efengyl?



Gweddïwn

Arglwydd,
Cymer di fy llais yn lân,
am fy Mrenin boed fy nghân;
cymer fy ngwefusau i,
llanw hwynt â'th eiriau di.

Amen



Mis Mawrth	Darlleniad
Wythnos 1	Mathew 4: 1-11
Wythnos 2	Ioan 3: 14-21
Wythnos 3	Ioan 12: 20-33

YR WYTHNOS FAWR



Sul y Blodau	Marc 15: 1-47
Dydd Llun 26 Mawrth	Ioan 12: 1-1
Dydd Mawrth 27 Mawrth	Ioan 12: 20-36
Dydd Mercher 26 Mawrth	Ioan 13: 21-32
Dydd Iau Cablyd	Ioan 13: 1-17, 31-35
Dydd Gwener Y Groglith	Ioan 18: 1-19, 42
Noswyl y Pasg	Mathew 27: 57-66
Sul y Pasg	Marc 16: 1-8

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip, Angharad Lewis a Tom Pointon
am y lluniau'r mis hwn



**PIGION O GOFNODION CYFARFOD CYTÛN
CAPEL Y Bedyddwyr Saesneg
*Nos Lun, 6 Chwefror 2018***



NADOLIG – Y STORI

Ymwelodd tua 1,600 gyda'r rhan fwyaf yn ddisgyblion ysgol, a daeth rhai pobl o Gartref Gofal Towy Castle. Diolchwyd i Jean Baker am drefnu'r stiwardiaid, a llwyddo i ddenu rhagor ohonynt. Y cyfarwyddwr oedd Brian Slate, a gobeithia wneud rhagor o newid y tro nesaf.

CYMORTH CRISTNOGOL:

Bore Coffi – Bore Sadwrn, 7 Ebrill 2018 yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg.

CYFARFOD Y PENTECOST:

Dydd Sul, 20 Mai 2018, yn **Ysgol y Dderwen**, rhwng **10 a 12**. Gweithgaredd i blant gan Nigel Davies; Gosod Blodau'r Pentecost gyda Dr Caroline Jones, o'r Eglwys Anglicanaidd; Astudiaeth Feiblaidd, yn Gymraeg gyda Peter Cutts, a Saesneg gyda Gaynor Jones-Higgs; Addoliad dan ofal Peter Cutts a Beti-Wyn James.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF (CYFARFOD BLYNYDDOL)

Nos Fawrth, 26 Mehefin 2018, am 7.00 yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg.

CYNGERDD DATHLU 40 PAPUR BRO CWLWM

gyda

Caryl Parry Jones

Côr Llanpumsaint a'r

Cylch

Côr Seingar

Band Jazz Sipsi Galoise

Côr Ysgol Bro Myrddin

ac eraill



Nos Wener 16 Mawrth 2018

Neuadd San Pedr, Caerfyrddin. 7.30yh

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

RITA BROWN

Teras Francis

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

**Capeli ac Eglwysi Caerfyrddin
yn cyflwyno ,....**

Parti'r Pentecost

**Dydd Sul 20 Mai
o 10.00 tan 12.00**

yn

Ysgol y Dderwen

Heol Spurrell

Caerfyrddin, SA31 1TG

**Digwyddiad dwyieithog sy'n
addas i bob oedran**



Dewch ynghyd i fwynhau cymdeithas Gristnogol
gynnes a chyfeillgar ynghyd â:

- *Gweithgareddau i blant*
- *Astudiaeth Feiblaidd*
- *Trefnu blodau ar gyfer y Pentecost*
- *Addoliad*

Ceir mwy o fanylion gan:

Y Parch. Gaynor Jones-Higgs

 **01267 253158**

Meinir Jones....

**Dathlu Gŵyl Dewi yng nghwmni
Ysgolion Sul Cymraeg Caerfyrddin
Dydd Sul 25 Chwefror 2018**



Tro'r Tabernacl oedd hi eleni i groesawu capeli'r dref i ddathlu Gŵyl ein nawddsant, a chynnes oedd y croeso ar fore oer, ond braf, a'r haul yn gwenu.

Yn dilyn yr Intrada cafwyd gair o groeso gan aelodau Ysgol Sul y Tabernacl a darllenwyd Salm 100, gyda'r alwad i ni addoli'r Arglwydd yn llawen, diolch iddo a bendithio ei enw. Ar ddiwedd pob llinell cafwyd ymateb gan y gynulleidfa yn sôn am haelioni diddiwedd yr Arglwydd.

Plant o ysgol Sul Elim gyflwynodd yr emyn cyntaf, 'O, O, O mor dda yw ein Duw' a oedd yn ategu neges y Salm gan nodi "*Fe roes ei unig Fab er mwyn i ni gael byw*". Y cyfeilyddion drwy gydol y gwasanaeth oedd Band y Tabernacl, dau gitarydd a drymiwr, a Nicki Roderick o'r Priordy ar y piano, gan sicrhau bod digon o fynd ar y canu.

Cyflwyniad gan blant y Priordy oedd yr eitem nesaf, ar y thema Dewi a'r anifeiliaid, ac yn cynrychioli'r Ysgol Sul roedd Osian Hayes, Tomos Huw, Gwennan Jones a Beca Elfyn. Fe wnaethon nhw eu gwaith yn arbennig fel arfer. Clywsom ychydig o hanes Sant Ffrancis yn gyntaf, oedd â ffordd arbennig iawn gydag anifeiliaid ac a arferai bregethu i'r adar yn y coed. Daeth yn adnabyddus fel nawddsant yr anifeiliaid a'r amgylchedd. O ran Dewi Sant, arferai ef bregethu ei bod yn ddyletswydd ar bawb i ofalu am anifeiliaid. Un hanesyn enwog amdano oedd y tro hwnnw pan gododd y tir yn Llanddewi Brefi am na allai pobl ei weld, a daeth colomen i eistedd ar ei ysgwydd. Nododd y plant bod neges Sant Ffrancis a Dewi Sant yr un mor berthnasol ag erioed heddiw gyda'r angen i ni wynebu'r heriau amgylcheddol sy'n bygwth ein byd a derbyn ein cyfrifoldeb i weithredu.



Offrymwyd y weddi gan blant Ysgol Sul Eglwys Crist yn diolch am fywyd, gwasanaeth ac esiampyl loyw Dewi Sant. Yn dilyn yr ail emyn, cyflwynwyd cerdd fer yn ein hatgoffa i wisgo cenhinen yn ein


cap a'i gwisgo yn ein calon.

Deuai'r darlleniad, a gyflwynwyd gan rai o blant Ysgol Sul Penuel, o lyfr Genesis sef hanes Noa a'r dilyw. Clywsom am ddicter Duw a'i benderfyniad i gael gwared â'r ddynoliaeth. Ond gorchmynnodd i Noa adeiladu arch er mwyn ei achub ef a'i deulu a saith pâr o bob anifail. Ar ôl deugain diwrnod a deugain nos gwelwyd enfys a chafwyd arwydd gan y golomen i ddynodi bod y llifogydd wedi mynd. Ac yn union fel yr oedd y dilyw wedi golchi'r byd, daeth Iesu Grist maes o law i olchi'n pechodau ni i gyd a rhoi i ni fywyd newydd.



Cafwyd hanes Noa ar gân yn yr eitem nesaf wrth i lond sêd fawr o blant Ysgolion Sul Cymraeg y dref uno i ganu "*Ribididres i mewn i'r arch â nhw.*" Roedden nhw'n werth eu gweld yn eu dillad traddodiadol Cymreig yn morio canu am yr holl anifeiliaid ac yn amlwg yn mwynhau. I ddilyn canwyd yr emyn 'Distewch cans mae presenoldeb Crist' a gyflwynwyd yn glir gan Jac Thomas o'r Priordy.

Yn ei air i'r plant, parhaodd y Parchedig Peter Cutts â'r thema o Dewi ac anifeiliaid trwy roi cyflwyniad i ni am fywyd yn y mynachlogydd, gyda lluniau pwrrpasol ar y sgrin. Roedd gan bob mynach ei rôl, rhai yn astudio, eraill yn ffermio, coginio ac ati. Roedd eraill yn gwneud llawysgrifau ac yn hoff iawn o'u haddurno trwy dynnu lluniau anifeiliaid o bob math, rhai ohonynt yn gyfarwydd i'r mynachod, ac eraill yn ffrwyth eu



dychymyg. Byddai Dewi Sant, wrth fynd allan i ledaenu'r gair am Iesu Grist, yn defnyddio lluniau i gyflwyno'i neges gan nad oedd y bobl yn gallu darllen. Un llawysgrif sydd wedi goroesi yw Llyfr Kells, sy'n cynnwys y pedair efengyl, a phortreadir Mathew fel dyn ag adenydd, Marc fel llew, Luc fel ych ac Ioan fel eryr. Ei neges i gloi oedd 'Bydded i bopeth byw foliannu'r Arglwydd'.

Yn ystod yr emyn olaf, sef *Air Disglair Duw*, cafwyd casgliad er budd Clwb Plant Cydenwadol GIG, clwb sy'n cael ei gynnal gan

wirfoddolwyr o blith y gwahanol enwadau ac a gynhelir yn wythnosol yn festri'r Tabernacl.

Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr oedfa ac i blant y Priordy am eu gwaith gwyh, heb anghofio Catrin a Nicki am hyfforddi'r canu a Jayne Woods am gydlynu'r cwbl ar ran y Priordy.

OEDFA'R HWYR

Ein hannog i gymryd ein ffydd o ddifrif wnaeth yr Archddiacon Dorrien Davies yn ei fyfyrddod yn yr Oedfa Gymun Gŵyl Dewi yn Eglwys Sant Ioan gyda'r hwyr. Mae'n ffydd yn ganolog i bopeth a wnawn. Mae'n golygu rhoi a byw i Iesu bob dydd ac ymroi iddo heb gyfrif y gost. Ofer yw'n hunaniaeth heb ein ffydd.



Archddiacon newydd Caerfyrddin – ei dref enedigol - yw'r Hybarch Dorrien Davies ac roedd yn cyflwyno'r neges yn Eglwys Sant Ioan am y tro cyntaf.

Cafodd ei gynorthwyo yn y gwasanaeth gan Y Parchedig Ganon Patrick Thomas, Y Parchedig Delyth Richards, Y Parchedig Beti-Wyn y Parchedig Peter Cutts a Wyn Maskell.

Roedd rhyw ddeugain o bobl ar draws capeli ac eglwysi Cymraeg y dref wedi dod i'r oedfa. Roedd Meirion Wynn Jones wrth yr organ.

Diolch yn fawr iawn i'n cyfeillion yn Eglwys Sant Ioan am eu croeso cynnes ac am baratoi paned i ni ar ddiwedd yr oedfa.

CLWB PLANT CYDENWADOL GIG

Mae'r Clwb yn cael ei gynnal gan wirfoddolwyr o blith yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Presbyteriaid a'r Eglwys Apostolaidd. yn cyfarfod yn wythnosol yn Festri Capel y Tabernacl o 5 tan 6 ar nos Wener. Yr arweinwyr yw dau fyfyrwr ifanc o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, sef Rhys Hughes a Siôn Jones.

GWASANAETH DATHLU GŴYL DEWI



ATGOFION AWSTRALIA

gan

MEG AC ALYS LEWIS

MAE'R Nadolig o hyd yn amser cyffrous!

Paratoi ac ymarfer ar gyfer cyngerdd a gwasanaeth Nadolig yn yr ysgol, heb anghofio gwasanaeth Nadolig Y Priordy wrth gwrs! Hefyd, rhaid cofio danfon llythyr pwysig at Siôn Corn. Ond wrth ysgrifennu ein llythyr ar gyfer Nadolig 2017, roedd rhaid rhoi neges bwysig iawn iddo – nid oeddem yn mynd i fod gartref yn Llangynnwr dros y Nadolig, nac

ychwaith lawr yn Nhrefdraeth gyda Mam-gu a Tad-cu. Roedd antur fawr iawn o'n blaenau ni fel teulu'r Nadolig hwn, taith a olygai ein bod yn treulio'r Nadolig yn bell, bell i ffwrdd, ac yn ystod tymor yr haf! Ie, Nadolig yn Awstralia!

Mae sawl person wedi gofyn i ni rannu beth oedd uchafbwyntiau ein gwyliau arbennig. Mae'n gwestiwn anodd iawn i'w ateb, ond dyma ni'n rhannu rhai ohonynt gyda chi. Fe ddechreuodd ein hantur ar Ddydd Gwener 15fed o Ragfyr. Ar ôl treulio bore yn yr ysgol, y cam cyntaf oedd siwrne i Lundain, ac aros dros nos mewn gwesty cyn dechrau ar ein taith hir y diwrnod wedyn. Roedd chwech ohonom yn mynd allan i Awstralia – ni'n dwy, mam a dad, a mam-gu a tad-cu. Dyma'r tro cyntaf i ni a mam a dad fynd i Awstralia, ond pedwaredd daith mam-gu a thad-cu, felly maen nhw'n bach o arbenigwyr erbyn hyn! Mae chwaer ein tad-cu, Anti Jean, yn byw yn Awstralia ers bron i 22 mlynedd, ac mae ei phlant hi, sef cyfnither a chefnder ein mam, yn byw yno hefyd. Roeddem i gyd yn edrych ymlaen at eu gweld nhw!

Roedd cerdded o amgylch maes awyr Heathrow yn brofiad arbennig – mae e'n lle anferthol! Roedd ein taith gyntaf yn mynd â ni o Lundain i Doha, sef prifddinas Qatar, ac roedd y daith bron yn 7 awr o hyd. Roedd yr awyren yn anferth, a digon i'n cadw'n brysur wrth i ni fwynhau gwyllo sawl ffilm. Ar ôl cyrraedd Doha roedd rhaid cerdded yn gyflym i ddal ein hawyren nesaf i Perth. Roedd hon yn siwrne hir iawn, dros 11 awr, ond buon ni'n cysgu am ran fwyaf y daith. Roedd yn braf cyrraedd Awstralia o'r diwedd ar ôl teithio am gymaint o oriau.

Cawson ni ddeg niwrnod yn Fremantle, dinas yn agos iawn i Perth. Roedd yn



ddinas hardd iawn. Un uchafbwynt o'n cyfnod yn Fremantle oedd ymweld â Charchar Fremantle sydd yn un o Safleoedd Treftadaeth y Byd. Roedd yn ddiddorol iawn dod i ddeall am hanes y lle. Fe adeiladwyd y carchar gan y carcharorion rhwng 1852 a 1859. Roedd nifer o'r carcharorion wedi cael eu danfon yno o Brydain, a rhai ohonynt o Gymru. Fe gaewyd y carchar ym 1991, ac mae nawr yn amgueddfa.

Uchafbwynt arall oedd ymweld ag ynys Rottnest, ynys fach 11 milltir o Fremantle, ac yn siwrne o 25 munud mewn cwch i'w gyrraedd. Mae 63 o draethau ar yr ynys, ac fe benderfynon ni dreulio amser ar draeth o'r enw 'The Basin'. Wrth fwya ein cinio, fe gwrddon ni â chreadur o'r enw Quokka – dim ond ar ynys Rottnest y mae'r Quokka yn byw, ac mae tua 10,000 ohonynt nhw yn byw yno. Maen nhw'n ddof iawn, fel y gwelwch yn y llun hwn!



Uchafbwynt arall, wrth gwrs, oedd treulio'r Nadolig mewn gwlad mor dwym! Fe gawsom ein cinio Nadolig mawr ar Noswyl Nadolig. Yna am 10 ar fore Nadolig roeddem ar y traeth yn chwarae yn y môr!

Dyna beth oedd profiad rhyfedd iawn o'i gymharu â'n boreau Nadolig arferol! Yna nôl a ni i dŷ cyfnither

mam i dreulio dros 4 awr yn y pwll nofio!

Un o'n hoff ymweliadau yn ein cyfnod yn Perth oedd ymweld â pharc bywyd gwyllt Caversham. Yno cawsom y cyfle i gwrdd â Tia, Koala ciwt iawn! Hefyd buom yn cerdded yng nghanol llawer iawn o gangarwod, gan eu bwydo hefyd!



Cyn pen dim, roedd ein hamser yn Fremantle ar ben, felly neidio ar awyren

arall amdani, a hedfan am 4 awr draw i Sydney! Yma, mewn ardal o'r enw Manly Vale, roedd cefnder ein mam yn byw. Roeddem wedi mwynhau treulio amser ar y traeth yn Manly yn rhoi tro ar gorff fyrddio, wrth wyllo'r syrrffio yn y môr.

Un o'r prif uchafbwyntiau, heb os, oedd ein taith ar gwch o Manly i mewn i'r ddinas. Wrth agosáu at y ddinas dyma'r cwch yn troi i'r dde a'r olygfa'n



dangos Tŷ Opera Sydney a Sydney Harbour Bridge am y tro cyntaf! Waw, am olygfa! Roeddem wedi mwynhau cerdded o amgylch yr harbwr. Ond nid dyma oedd diwedd ein hantur y diwrnod hwnnw. Dyma lun ohonof i a mam a dad ar gopa'r Sydney Harbour Bridge! Roedd dringo'r bont yn brofiad arbennig iawn. Roedd rhaid gwisgo dillad arbennig a harnais i'n cadw'n saff. Wrth i

ni ddringo, roedd wyth lon o draffig oddi tanom, a dwy linell rheilffordd, ac yn ôl pob tebyg mae 200,000 o gerbydau yn croesi'r bont bob dydd!

Uchafbwynt arall oedd dathlu nos Galan ym mhen draw'r byd. Cawsom Farbeciw gyda'r teulu, ac fe arhoson ar ein traed tan y flwyddyn newydd i wyllo'r tân gwyllt!

Ar y 3ydd o Ionawr roedd rhaid paratoi am ein taith hir nôl i Gymru. Cam un oedd ein taith o Sydney i Dubai, bron i 14 awr mewn awyren! Yna, ar ôl seibiant o ddwy awr yn Dubai, dyma ni'n dal ein hawyren olaf nôl i Lundain.

Am 5.30pm ar y 4ydd Ionawr, fe gyrhaeddodd ni adref i Langynnwr, ac roedd syrpreis arall yn ein disgwyl ni. Roedd Siôn Corn wedi gadael rhai anrhegion yno i ni hefyd, yn cynnwys postyn pêl-rwyd a beic – diolch byth na adawodd e'r rheiny yn Fremantle, neu fe fyddai wedi bod yn anodd iawn dod â nhw nôl gyda ni ar yr awyren!



Roedd ein gwyliau Nadolig yn fythgofiadwy. Cyfle arbennig iawn i dreulio amser gyda'n teulu yn Awstralia, a chyfle arbennig i ymweld â gwlad newydd. Mae gennym gymaint o atgofion da, ac rydym yn edrych ymlaen at ymweld eto yn y dyfodol!



DATHLU'R PASG



Y TABERNAACL, CAERFYRDDIN

NOS IAU CABLYD

29 Mawrth 2018

7.00pm

OEDFA GYMUN

Y PARCHEDIG

PETER CUTTS

Caerfyrddin

DYDD GWENER Y GROGLITH

30 Mawrth 2018

10.00am (yn unig)

OEDFA BREGETHU

Y PARCHEDIG ATHRO

DENSIL MORGAN

Llambed

TAITH GERDDED Y PASG - CYTŪN

*Dydd Gwener 25 Mawrth 2018 - 12 o'r gloch, gan ddechrau o'r Capel Wesle
lle bydd paned ar gael ymlaen llaw*

CARIO'R GROES I BEN BRYN MYRDDIN

Prynhawn Gwener y Groglith, 30 Mawrth 2018

*Gadael Canolfan Bryn Myrddin am 2.30 wedi gair o weddi a chario'r groes i
ben y bryn. Oedfa ar ben y bryn am 3 o'r gloch a phaned yng Nghanolfan*

Bryn Myrddin i ddilyn

Croeso i bawb o bob oed

Gwisgwch esgidiau synhwyrol



RADIO CYMRU SUL Y PASG

Oedfa'r Bore yng ngofal Beti-Wyn a rhai o'n Pobl Ifainc



DRWS AGORED

Bore Iau Cablyd 29 Mawrth 2018

FESTRI'R PRIORDY

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys




AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

GAIR O DDIOLCH

Annwyl Olygydd

Unwaith eto dyma ddiolch o waelod calon i aelodau'r Priordy a gefnogodd Fore Coffi a Phancws Plant Dewi eleni eto. Y tro hwn, Y Priordy oedd yn gyfrifol am stondin y capeli. Dewis Beti-Wyn oedd cynnal raffl gyda hamperi hyfryd yn wobrau.



Casglwyd cyfraniadau ar ddau ddydd Sul a chafwyd digon o arian i baratoi PUMP o hamperi.

Yn ystod y bore coffi ei hun codwyd £188 wrth y stondin - swm sylweddol iawn. Carwn ddiolch i bawb am eu cyfraniadau ac i'r tîm a fu wrthi'n gwerthu tocynnau raffl.

Diolch yn naturiol i Beti-Wyn am drefnu'r cyfan.

Cyfanswm elw'r diwrnod ei hun oedd £2423 - yr union faint â'r llynedd.

Yn gywir

Sulwyn Thomas

ON. Mae'n diolch ninnau hefyd i Sulwyn, Cadeirydd Plant Dewi yng Nghaerfyrddin, am ei holl waith mewn perthynas â'r fenter hon dros gyfnod maith.

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

Nos Lun, 16 Ebrill 2018

Y Festri – 7

ELIN A RICHARD REES



COFIO

Yn darllen yn ddiweddar am golli Tommy Lawrence, gôl-geidwad nodedig Clwb Pêl-droed Lerpwl ac eicon ar Lannau Merswy yn y chwedegau. Ym 2015, bu gohebydd a chriw ffilmio'r BBC yn holi pobl ar hap ar y stryd yn ninas Lerpwl a oedden nhw'n cofio Gêm Gwpan yr FA (y bumed rownd) rhwng Lerpwl ac Everton ym 1967. *'Dw i'n cofio'* meddai un llais ac, er syndod i bawb, aeth ymlaen i ddweud: *'Chwaraeais i yn y gêm. Fi oedd gôl-geidwad Lerpwl!'*




Nid bod y digwyddiad hwn gyda Lawrence yn ofnadwy o bwysig o gwbl ond mae'n dangos fel y mae pobl a phethau'n gallu mynd yn angof yn weddol fuan - hyd yn oed yn achos seren y bêl gron mewn dinas sydd ar dân dros y gêm!



Ychydig yn fwy difrifol oedd y profiad o wyllo eitem ar raglen ar S4C yn ddiweddar yn trafod ymhle y sefydlwyd y wasg argraffu gyntaf yng Nghymru. Daeth yn amlwg yn ystod y drafodaeth nad oedd ambell un ddim hyd yn oed wedi clywed am y wasg argraffu gudd mewn ogof ar Greigiau Rhiwledyn, Llandudno, lle cafodd y

llyfr Cymraeg cyntaf ei argraffu ar dir Cymru, sef *Y Drych Cristianogawl* ym 1586/7. Cofiwch, a bod yn deg, nid bai'r personau mo hynny o anghenraid. Yn sicr felly os na chawsant eu cyflwyno i'r hanesyn pwysig hwn yn y lle cyntaf!

Un o gymwynasau mawr y Dr Gwynfor Evans â'n cenedl oedd perswadio'r hanesydd o fri, yr Athro Geraint H Jenkins, i ddechrau ar y gwaith o olygu'r gyfres o lyfrau nodedig honno *Cof Cenedl*. Rhwng 1986 a 2009 cyhoeddwyd pedair cyfrol ar hugain yn llawn gwybodaeth werthfawr am hanes Cymru i apelio at ddarllenwyr cyffredin yn



ogystal â haneswyr dysgedig a myfyrwyr ifainc. Yng ngeiriau'r Athro: *Cof cenedl yw ei hanes ac ni allwn fforddio colli'r cof sy'n cynnal ein hunaniaethau fel Cymry.*

Yn cofio ymweld un tro ag ysgol uwchradd yn ne-ddwyrain Cymru pan oedd grŵp o ddisgyblion yn paratoi i fynd ar waith maes dros Bont Hafren. Dod i ddeall wedyn nad oedd angen iddynt deithio mor bell wedi'r cwbl gan fod enghraifft o'r union beth yr oeddent yn ei geisio i'w gweld o fewn tafliad carreg i'r ysgol! Ie, cyfoeth ein hamgylchfyd lleol yn gallu mynd yn angof.

Mor bwysig yw cofio'r pethau hynny sydd wedi'n mowldio fel gwlad a chenedl – y rhai tywyll a golau. A does ond gobeithio y bydd y cwrwccwlwm diwygiedig newydd yn ein hysgolion yn llwyddo o'r diwedd, ar ôl hirymaros, i adlewyrchu bywyd Cymru yn ei gyfanrwydd ar draws y meysydd addysgol.

Mae Gŵyl Dewi, ein nawddsant, yn taro'i gysgod dros fis Mawrth. Cwestiwn sy'n codi o bryd i'w gilydd yw a ddylai Dydd Gŵyl Dewi fod yn ŵyl genedlaethol ai peidio. Does dim byd yn bod ar hyn mewn egwyddor, wrth reswm. Ond un o'r dadleuon cryfaf yn erbyn y syniad, dybiwn i, yw'r perygl y byddai cyfle llawer o ddisgyblion i gofio Dewi ac ennyn balchder cenedlaethol, er enghraifft drwy wisgo gwisg Gymreig a chenhinen a chymryd rhan mewn eisteddfod neu gyngerdd, yn gallu diflannu'n llwyr.



Yng ngeiriau J R Jones '*Odid nad y trosedd duaf yw difa'r gorffennol*'. A byddai'n ddu iawn arnom i gyd pe baem yn difa Dewi o'n cof. Yn ffigwr canolog yn natblygiad Cristnogaeth yng

ngwledydd Prydain Baganaid, roedd pregethu'r Efengyl yn holl bwysig iddo.

Gadawodd Dewi argraff ar ein cof fel cenedl. Gwelai angen yr Efengyl ar ei bobl – angen sy'n bodoli o hyd. Ac onid ei ddymuniad pennaf heddiw fyddai'n gweld ni'n arddel Efengyl Iesu ac yn ei lledaenu'n fentrus fel y gwnaeth yntau – ond mewn dull sy'n gweddu i'r unfed ganrif ar hugain?



Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

Nos Iau, 8 Chwefror 2018

CYNHELIR dau o gyfarfodydd y Gymdeithas Ddiwylliadol ar y cyd â Chymdeithas y Tair Eglwys (Y Tabernacl, Talog a'r Foelcwan) bob blwyddyn, y naill yn y Priorddy a'r llall yn y Tabernacl. A gwesteion ein cyfeillion sy'n cwrdd yn y Tabernacl oedden ni'r tro hwn. Er bod y tywydd yn anffafriol iawn, daeth cynulleidfa dda ynghyd i'r cyfarfod.



Un o blant Y Tabernacl oedd y siaradwr gwadd, sef y Dr Ioan Mathews a bydd llawer yn cofio'n annwyl iawn am ei ddiweddar rieni, Gareth a Margaret Mathews, a'u cyfraniad clodwiw dros Gristnogaeth a phopeth dyrchafol yn ein tref a'n bro dros flynyddoedd maith.

Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd â'i bencadlys yma yng Nghaerfyrddin yw Ioan, a hanes dechrau a datblygu'r sefydliad hwn oedd testun ei sgwrs.



Dechreuodd drwy gynnal cwis am y Coleg. Yn ffodus, ofynnodd e ddim i ni am yr atebion! Ond petai wedi

ailgynnal y cwis ar ddiwedd y noson byddai pawb wedi derbyn cant y cant gan mor glir y llwyddodd i grisialu hanes y Coleg!

A newyddion da oedd gan Ioan. Fel un sy wedi ymroi'n gyfan gwbl i addysg cyfrwng Cymraeg, roedd yn amlwg yn hapus i allu dweud fod y Coleg wedi datblygu ac yn parhau i gynyddu er ei sefydlu ar 1 Ebrill 2011. Does gan y Coleg ddim campws ei hunan ond mae'n gweithio drwy nifer o 'ganhennau' ar draws y prifysgolion yng Nghymru. Erbyn hyn, trwy gydweithio â'r prifysgolion hynny mae'r Coleg yn gallu cynnig cyfleoedd astudio drwy'r Gymraeg ym mhob un o feysydd addysg uwch, o fewn rheswm, i bawb sy'n ei ddymuno. A diolch i ddyfodiad technolegau e-ddysgu mae modd rhannu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru'n ddigon hwylus y dyddiau hyn.



Mae'r Coleg hefyd yn noddi darlithwyr cyfrwng Cymraeg ac yn cynnig ysgoloriaethau sy'n galluogi myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig i ddilyn cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyw'r Coleg na'r Prif Weithredwr, fodd bynnag, ddim yn debygol o fodloni ar eu clodydd! Maent yn llwyr ymwybodol o'r heriau sy'n eu hwynebu, yn enwedig wrth iddynt fentro i dir newydd, sef addysg bellach, prentisiaethau a dysgu yn y gweithle – meysydd sydd mor allweddol yn yr ymgyrch i ddatblygu'r Gymraeg a dwyieithrwydd ymhellach.

Bu'n noson hynod o ddifyr ac addysgiadol a gobeithiol. Mae'n dda deall, er enghraifft, fod Llywodraeth Cymru wedi ymroi i ddatblygu addysg Gymraeg a bod cefnogaeth i hyn ar draws y pleidiau gwleidyddol. *Mynnwch ddysg yn eich iaith* oedd maniffesto William Salesbury ar gyfer y Cymry. A da gweld fod y Coleg a'i Brif Weithredwr yn derbyn yr her hon yn llawn brwdfrydedd yn yr unfed ganrif ar hugain.

LLYWYDD y noson oedd Y Parchedig Peter Cutts, Gweinidog Ioan a'i briod Lowri a'u merch Siwan. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Barbara Jones, Foelcwan. Talwyd y diolchiadau gan Emyr James, Ysgrifennydd y Tabernacl ac un o gydweithwyr Ioan yn y Coleg. Canwyd *Calon Lân* ar ddechrau'r noson a'r Anthem Genedlaethol ar ei diwedd. Roedd Enid Davies wrth y piano. Mwynhawyd paned a bisgiën a sgwrs cyn ymadael – diolch i garedigrwydd gwragedd y Tabernacl.



GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN

Bore Gwener – 9 Mawrth 2018 – 11 o'r gloch

gyda'n

Gweinidog

Croeso i bawb



ACHING ARMS

ELUSEN COLLI BABAN yw *Aching Arms* sy'n cael ei chynnal gan grŵp o famau galarus sy'n gwybod am y boen a'r gwacter o adael ysbyty heb y baban roeddent wedi bod yn ysu amdano mor hir. Rydym yn rhoi arth fel cysurwyr gan sicrhau bod teuluoedd galarus yn gwybod nad ydynt ar eu pen eu hunain wrth droedio siwrnai galar. Mae'r eirth yn cael eu rhoi yn anrheg oddi wrth deulu arall sydd wedi'u rhoi er cof am eu baban. Bydd enw eu baban ar label yr arth.



Sefydlwyd *Aching Arms* yn 2010, a rhoddwyd statws elusen gofrestredig iddi yn 2013. Mae'r elusen hon yn cael ei hariannu drwy roddion yn unig.

Bwrdd o ymddiriedolwyr sy'n cynnal yr elusen ac rydym yn cyflogi cydlynnydd elusen rhan-amser. Mae gennym rwydwaith o wirfoddolwyr ymroddgar ledled y DU sy'n helpu i baratoi a phostio'r eirth, yn cysylltu ag ysbytai ac yn codi arian.

Mae'r elusen yn cydweithio ag ysbytai ledled y DU er mwyn cynnig ein heirth cysur Aching Arms i rieni galarus ac rydym hefyd yn anfon eirth yn uniongyrchol at deuluoedd sy'n cysylltu â ni.

Ein nod yw codi ymwybyddiaeth o effaith colli baban a beichiogrwydd. Rydym yn cydweithio â gweithwyr iechyd i wella'r gofal a'r cymorth mae mamau yn eu derbyn ar ôl colli eu baban drwy gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth am ddim i ysbytai sy'n cynnig ein heirth i deuluoedd galarus.

Darganfyddais Aching Arms ar ôl colli'n mab cyntaf Cai Ioan ar 31.01.15. Cysylltais â'r elusen yn uniongyrchol a danfonwyd arth atom. Mae'r arth a gawson ni wedi'i rhoi er cof am Erin. Daeth â chysur mawr i ni. Ers hynny rydym wedi rhoi nifer o eirth er cof am Cai ac mae'n dod â chysur i ni o wybod bod eirth er cof am Cai yn helpu eraill drwy amser anodd iawn.



Dechreuais i wirfoddoli gyda'r elusen gan gyfieithu eu taflenni i'r Gymraeg a sefydlu yn Haf 2016 mai Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin oedd yr ysbyty cyntaf yng Nghymru i roi eirth *Aching Arms* i deuluoedd galarus yn yr ysbyty.



RYDYM yn trefnu Te Parti i godi arian i *Aching Arms* yng Nghapel y Priordy ar Ddydd Sul 29 Ebrill am 4pm. Bydd tocynnau'n costio £5 yr un ac ar gael yn fuan.



THEATR Y LYRIC



Theatr Genedlaethol Cymru

Y TAD

gan

Florian Zeller

Trosiad Cymraeg gan Geraint Lovgreen

Dydd Mawrth 6 Mawrth 2018 – 13.00 / 19.30

CYNNAL Y FFLAM

Caneuon o sioeau Cwmni Theatr Maldwyn yn cynnwys Y Mab Darogan, Heledd, Pum Diwrnod o Ryddid ac Ann!

Nos Sadwrn 24 Mawrth 2018 - 19.30



CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN

CWRDD CHWARTER NESAF

Gibeon


Dydd Iau 8 Mawrth 2018 - 10.30 a 1.30

Yn y prynhawn

Y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (ee. tai capel) a'r Ddeddf Diogelu Data a'i

heffaith ar eglwysi – Luned Voyle Thomas

Ymweliad Cymorth Cristnogol â Bolifia – Cyflwyniad Pwynt Pwer gan Eleri Twynog



Trist oedd clywed am farwolaeth ddisymwth Emma Chambers, yr actores a ddaeth yn wyneb mor gyfarwydd fel Alice Horton (née Tinker), y Gofalydd Eglwys yn *The Vicar of Dibley* - cyfres a oedd wrth fodd calon llawer o bobl, gan gynnwys ein Gweinidog!

Y Ficer yn y Gyfres, Y Parchedig Geraldine Granger (Kennedy yn ddiweddarach), oedd yr actores Dawn French.

Mae cysylltiad rhwng Dawn French a Chymru gan iddi hi gael ei geni yng Nghaerdybi, Ynys Môn, gyda llaw.,



A wyddech chi mai enw

llawn Emma Chambers oedd **Emma Gwynedd Mary Chambers?**

Yn Doncaster y cafodd ei geni - ei thad yn obstetrydd a gynecolegydd ymgynghorol a'i mam yn fferyllydd. Byddai'n ddiddorol gwybod sut cafodd hi'r enw 'Gwynedd'. Roedd Emma hefyd yn un o sêr y ffilm *Notting Hill* gyda'r actor o Gymro, Rhys Ifans.

AELODAU NEWYDD Gweler y Rhwywaith



BEIBL.NET

Hyfrydwch i ni fel Gofalaeth yw cyflwyno cyflenwad o 30 copi o beibl.net i Adran Addysg Grefyddol, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Dyma dri o bobl ifanc yr Ofalaeth, Steffan (Priordy), Lowri (Cana) a Katie (Bancyfelin) yn cyflwyno'r Beiblau i Gwenan Morgan a Tracey Jenkins, athrawon Addysg Grefyddol Ysgol Bro Myrddin.
Diolch am gael gwneud



Tudalen Ieuenctid@Priordy



Gwasanaeth Gŵyl Dewi
Diolch yn fawr iawn i bawb a
ddaeth i'r Gwasanaeth Gŵyl
Dewi ac i bawb a gymerodd
ran!

Sul y Mamau



Bore Sul, Mawrth 11, bydd
oedfa i ddathlu Sul y Mamau.
Dewch â'ch mamau a'ch mam-
gus i'r cwrdd gyda chi!

Sul Y Blodau, Mawrth 25
Oedfa blant a phobl ifanc -
dewch yn llw!



y Pasg!

Bore Sul y Pasg

Hoffech chi ymuno yn yr helfa
wyau? Dewch i'r cwrdd fore Sul

PIP ar Daith

Dydd Sul, Mawrth 18

Rydym yn ffodus iawn i
gael cwmni Mererid
Hopwood i arwain criw
PIP a PIP+ ar hyd rhan
o daith

Heolydd Heddwch
Caerfyrddin. Pawb sydd
am ddod i lawr lwytho app
'Heolydd Heddwch' ar eu iphones (yn rhad ac
am ddim). Mwy o fanylion yn nes at y
dyddiad.



Dyddiadau' r mis:

Mawrth 4 - Ysgol Sul
Mawrth 11 - Oedfa Deulu Sul y Mamau
Mawrth 18 - Ysgol Sul a PIP ar daith
Mawrth 25 - Oedfa blant a phobl ifanc
Ebrill 1 - Sul y Pasg

*Hwyl am y tro,
Beti-Wyn*



AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



BORE COFFI PLANT DEWI



DATHLIAD ARBENNIG MERCHED Y WAWR CAERFYRDDIN



Mae aelodau'r Priordy erioed wedi bod yn flaenllaw mewn mudiadau a chymdeithasau yng Nghaerfyrddin, a phan ddaeth criw at ei gilydd i sefydlu cangen o Ferched y Wawr yma yn 1968 doedd hi ddim yn eithriad eu bod eto ar flaen y gad.



Roedd y Mudiad wedi ei sefydlu nôl yn 1967 yn y Parc, Y Bala ond wrth i'r mudiad ifanc gydio yn nychymyg merched Cymru, doedd dim rhaid aros yn hir cyn cynnau'r fflam yn nhre Caerfyrddin.

Yma, etholwyd **Beti Hughes** yn Llywydd cyntaf y gangen ac **Enid Jones** yn ysgrifenyddes - y ddwy maes o law yn dod yn Llywydd ac Ysgrifenyddes Genedlaethol.

Yn y pwyllgor cyntaf roedd **Eirlys Jones, Siân Dalis Davies, Eira Jenkins** ac **Elinor Davies**.

Mewn rhyw flwyddyn ymunodd rhagor o rai ifancach yn eu plith **Bronwen Wilkins** a **Glenys Thomas** (a ddaeth yn Llywydd Genedlaethol yn ddiweddarach).

Fel roedd aelodau newydd yn symud i'r Priordy daethant yn aelodau - **Eirlys Rees, Elisabeth Reynolds, Rahel Harries, Dr Mair Walker, Rita Brown, Iris Humphrey Davies** a **Margaret Jones**.



Yn y cyfnod yma roedd tua phedwar ugain o aelodau ond cyn hir fe agorwyd canghennau newydd yn Nantgaredig, Sanclêr. Peniel a Chapel Iwan, ac aeth rhai o'n haelodau yno.

Roedd hi'n gangen weithgar a bywiog iawn ac fe ddaeth bywyd newydd eto pan symudodd **Valerie James** yma, a oedd yn giamster ar gynhyrchu pob math o adloniant. Etholwyd hithau, yn ei thro, yn Llywydd y Mudiad.

Ymunodd **Tina Charles, Eira Phillips, Rhian Evans a Meinir Lloyd** â'r gangen ac yn fwy diweddar, **Gloria Evans, Nansi Hayes, Linda Crayford a Rhyswen Michael.**

At hyn mae merched y Priordy fel **Catrin Heledd** yn perthyn i gangen Peniel, lle bu **Gwyneth Griffiths** hefyd yn aelod, tra bo **June Thomas a Heather Williams** yn aelodau gyda Glannau Pibwr.

Erbyn hyn mae yma Glwb Gwawr yn rhan o'r Mudiad ac y mae nifer o ferched ein capel ni yn flaenllaw yno hefyd.

Mae rôl bwysig gan y Mudiad i'w chwarae yn y Gymru sydd ohoni. Gobeithio y bydd hynny yn parhau gyda chynrychiolaeth gref o'r Priordy yn asgwrn cefn Cangen Caerfyrddin.

Diolch i Glenys a llongyfarchiadau mawr i Ferched y Wawr Caerfyrddin ar ddathlu eu hanner canfed pen-blwydd a phob dymuniad da i'r dyfodol.



BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL

Dydd Sadwrn 7 Ebrill 2018 - 10 tan 12

Capel y Bedyddwyr Saesneg

**DIWRNOD Y LLYFR
Y GORAU O'R GOREUON**

Pa un yw'ch ffefryn chi?

Nos Fercher 7 Mawrth 2018 – 6.30 tan 8.00

Yr Atom, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

*Noson yng nghwmni **Dr Siwan Rosser** (Prifysgol Caerdydd), y **Prifardd Mererid Hopwood**, y gwyddonydd a'r **Athro Emeritws Deri Tomos** a'r awdur, y cartwnydd a'r cyflwynydd **Siôn Tomos Owen** yn trafod eu hoff lyfrau i blant a phobl ifainc ac yn gofyn beth sydd yn gwneud llyfr yn un apelgar a sut mae dewis pa lyfrau i'w hystyried ymhlith y Gorau o'r Goreuon*

GŴYL GRISTNOGOL LLANW

2-5 Ebrill 2018

Canolfan y Dywysoges Gwenllïan, Cydweli

Yr Ŵyl yn ymweld â Sir Gâr am y tro cyntaf yn ei hanes. Wythnos lawn i bawb o bob oed gyda threfniadau arbennig i blant.



Gwybodaeth bellach - Nigel Davies

Swyddog Plant ac Ieuenctid MIC

☎01994 230049 e-bost: mic@uwclub.net

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?

www.annibynwyr.org



CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 7 Mawrth am 7 yn y Festri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

CWRDD DIACONIAID A BLAENORIAID YR OFALAETH

Nos Fercher 14 Mawrth am 7 yn y Festri

**CANMLWYDDIANT
SANT IOAN CYMRU-WALES**

Mawrth y Cyntaf 2018



Gellir olrhain dechreuadau Sant Ioan Cymru – Wales yn ôl i'r Canoloesoedd. Yn ôl yn wir i Urdd Ysbyty Sant Ioan o Gaersalem (neu Urdd Sant Ioan) sydd â'i wreiddiau mewn hosbis neu glafdy a sefydlwyd yng Nghaersalem yn yr unfed ganrif ar ddeg.

Tyfodd Urdd Sant Ioan dros y canrifoedd nes dod erbyn heddiw'n elusen ryngwladol o bwys yn darparu cymorth cyntaf a gwasanaethau cynnal mewn mwy na 40 o wledydd o gwmpas y byd gyda thîm ymroddedig o ryw 400,000 o wirfoddolwyr a staff.

Mae Urdd Sant Ioan yn seiliedig ar egwyddorion Cristnogol. Mae popeth a wna'n deillio o ddelfrydau Cristnogol. Wedi dweud hynny, mae'n darparu croeso cynnes i bobl o unrhyw ffydd neu bobl heb unrhyw gredd sy'n cael eu symbylu i rannu'i genadwri.

Mae prif amcanion a phwrpasau Urdd Sant Ioan i'w gweld yn ei Statudau.

- I ymladd dros wirionedd Duw. Mae'r amcan yn cael ei grynhoi yn arwyddair cyntaf yr Urdd – *Pro Fide* (Dros y Ffydd).
- I ofalu am y claf a'r anghenus. Mae'r amcan yn cael ei grynhoi yn ail arwyddair yr Urdd – *Pro Utilitate Hominum* – Ar gyfer gwasanaethu dynol ryw.

Fel rhan o'i waith elusennol, sefydlodd Urdd Sant Ioan dair elusen wahanol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Un oedd Ysbyty Llygaid Caersalem. Y ddwy arall oedd Cymdeithas Ambiwylans Sant Ioan (1877) a Brigâd Ambiwylans Sant Ioan (1887), y naill yn darparu cymorth cyntaf a hyfforddiant nyrsio a'r llall gymorth cyntaf a gwaith nyrsio gan wirfoddolwyr hyfforddedig - fe'u cyfunwyd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Ym 1907 awdurdododd Edward VII, fel Pennaeth Brenhinol Urdd Sant Ioan, sefydlu gwahanol 'briordai' o'r Urdd ar gyfer gwahanol genhedloedd. Yr un cyntaf i'w sefydlu oedd Priordy Cymru ym 1918 a arweiniodd yn ei dro at Ambiwylans Sant Ioan Cymru-Wales yn dod yn sefydliad ac elusen ar wahân i'r fam-sefydliad Seisnig.

Mae Sant Ioan Cymru – Wales yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r genedl, o'i hyfforddiant cymorth cyntaf i bobl ifanc i'w gefnogaeth feddygol mewn digwyddiadau

mawr a bach ar draws Cymru, boed y rheiny'n gyfarfodydd diwylliedig neu'n gystadlaethau chwaraeon ac ati.

Rydym yn gwybod yn dda am waith rhagorol Sant Ioan Cymru – Wales yn lleol yma yng Nghaerfyrddin. Mae enwau rhai o'r gwirfoddolwyr yn dod i'r meddwl yn syth, sef Tom Pointon, un o 'hoelion wyth' Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin a'r diweddar Bill Jones, un o blant Heol Dŵr a'i briod Mona Jones.

Dyrchafwyd Bill yn Farchog a Tom yn Gadfridog Urdd Sant Ioan a hynny am oes o waith elusennol, ddydd a nos, ar draws Sir Gâr a thu hwnt. Un arall a fu'n ddiwyd gyda'r Gangen leol yma yng Nghaerfyrddin oedd Alwyn Jones, un o aelodau'r Priordy.



A dyma i chi rai cyfarfodydd a gynhaliwyd gan ein Cangen leol dros y blynyddoedd:

- *Ar Nos Fawrth 16 Hydref 1973 cynhaliwyd Agoriad Swyddogol Pencadlys Urdd Amibwlans Sant Ioan yn Nheras Francis, Caerfyrddin gan Gomisiynydd Sir Gaerfyrddin J Ronald Jones, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed / Powys.*
- *Ar Nos Sul, 30 Ionawr 1977 cynhaliwyd Cyngerdd Canmlwyddiant Amibwlans Sant Ioan Caerfyrddin yng Nghapel Heol Dŵr, Caerfyrddin. Ymhlith yr artistiaid roedd Côr Meibion Caerfyrddin (dan arweiniad Aldon Rees), Yolande Jones (Ceinewydd), Berwyn Davies (Aberaeron) ac Islwyn Thomas (Pont-iets).*
- *Ar Nos Iau, 20 Mawrth 1986, cynhaliwyd Gwasanaeth Cysegru a Dadorchuddio Plac er cof am wirfoddolwr o Dalacharn ym Mhencadlys yr Urdd yng Nghaerfyrddin dan ofal Y Parchedig Alun Page, Caplan yr Adran.*
- *Ar Ddydd Sul 25 Ebrill 1999 cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys San Pedr Caerfyrddin yng ngofal y Caplan, y Canon Randolph Thomas, i ddathlu 80 mlynedd o wasanaeth Adran Tref Caerfyrddin o Amibwlans Sant Ioan i bobl Caerfyrddin a'r Cylch. Cynhaliwyd seremonïau cofrestru Cadetiaid (10-17 oed) a chroesawu Brochion (5-11 oed) i Adran Caerfyrddin ac yn rhan o deulu byd-eang Urdd Sant Ioan.*
- Yn y llun isod a dynnwyd ym 1999 yng ngwisg Sant Ioan yn y cefn o'r chwith mae **Mona Jones, Tom Pointon a Bill Jones**. Yn y rhes flaen mae **Meinir Lloyd, Maeres Caerfyrddin, Y Parchedig Ganon Randolph Thomas a Peter Hughes Griffiths, Maer Caerfyrddin** ar y pryd.



- *Ar Ddydd Sadwrn 12 Hydref 2002 cynhaliodd Priordy Cymru Hybarchedigaf Urdd Ysbyty Sant Ioan o Gaersalem Wasanaeth Ailgysegru ac Arwisgiad yn Eglwys San Pedr Caerfyrddin.*

Ein llongyfarchiadau mawr i Sant Ioan Cymru - Wales ym mlwyddyn ei ganmlwyddiant. A diolchwn yn fawr am y gwaith sy'n digwydd yn ei enw ledled Cymru a thu hwnt. A dyma ddiweddu drwy ddyfynnu geiriau *Emyrn Urdd Sant Ioan* a ganwyd ar y dôn *Lausanne* yn y gwasanaeth hwnnw yn Eglwys San Pedr Caerfyrddin yn 2002:



**Arglwydd, rhinwedd pob goleuni,
A choncwerwr t'wyllwch du,
Pâr i'n mawl fod yn orfoledd
O haelioni'th gariad cu.**

**Boed Dy Air yn fodd i'n codi
I wasanaeth dynolryw,
Dilyn ôl Dy droed bob amser
I roi eli ar bob briw.**

**Gweini cysur pan ddaw cyfle,
Ymgeleddu ar bob pryd.
Fel y gwnaethost, Annwyl Iesu,
Pan y daethost Ti i'n byd.**

**Tystion ydym, yn ein gofal,
O wir aberth Calfari,
A phan ddaw y gofyn arnom
Gweini wnawn Dy gariad Di.**

**Boed ein mawl yn fodd i'th ganmol
Am ein hannog ar y daith;
Croes Trugaredd, Croes y Gobaith
I'n hysgogi yn ein gwaith.**

Mae'n diolch yn fawr iawn i Tom Pointon, am ein helpu gyda'r erthygl hon

CYFARFODYDD BLYNYDDOL UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG ABERAERON, CEREDIGION

6-10 Mehefin 2018

Ar ran Cyfundeb Ceredigion mae'n bleser gennym eich croesawu i Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac i ddathliadau 200 mlynedd glaniad cenhadom o Neuadd-lwyd ym Madagascar ym 1818.

Cynhelir y cyfarfodydd yn nhref arfordirol Aberaeron, rhyw hanner ffordd rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, ar briffordd yr A473. Ar y lôn arall sy'n tywys pobl i Aberaeron, yr A482 o Lanbedr Pont Steffan, saif capel hanesyddol Neuadd-lwyd sy'n ganolog i'r dathliadau. O'r capel hwn y codwyd y ddau genhadwr cyntaf i lanio ar dir Madagascar – David Jones a Thomas Bevan. Roedd y ddau wedi bod dan ddylanwad Dr Thomas Phillips yn yr athrofa ar fferm Penbanc gerllaw. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y dathlu a fydd ar ddiwedd yr wythnos, a hyn yng nghwmni ein cyfeillion o Fadagascar. Ond cyn hynny bydd rhaid rhoi sylw i waith yr Undeb!

Cynhelir holl gynadleddau'r Undeb yn Neuadd Goffa Aberaeron, gyda'r prydau bwyd yn cael eu gweini yng Ngwesty'r Plu gerllaw. Ar ôl i'r cynadleddau ddod i ben daw cyfle i ymweld â chapel Neuadd-lwyd, gan ddilyn ôl traed y cenhadon o amgylch yr ardal trwy gyfrwng ffilm a sgysiau pwrpasol. Ar y nos Wener gwelir penllanw misoedd o waith caled gan griw bychan ond brwd, wrth iddyn nhw ddilyn hanes y cenhadon cyntaf hynny, David Jones a Thomas Bevan, dros y moroedd i ynys Madagascar. Bydd yr hanes yn cael ei gyflwyno mewn sioe arbennig a fydd yn cael ei pherfformio ar fferm Pen-rhiw, sef cartref David Jones ei hun. Yn glo ar y dathlu cynhelir Oedfa'r Dathlu ar y prynhawn Sadwrn a Chyngerdd gyda'r hwyr a fydd yn cyflwyno doniau o'r ddwy wlad.

Edrychwn ymlaen, felly, at eich croesawu'n wresog atom i Aberaeron, un o drefi cynlluniedig cyntaf Cymru, gyda'i phensaernïaeth glasurol a'i thai lliwgar trawiadol. Mae'n fwrwm o ddigwyddiadau yn ystod yr haf, ac yn dref braf a hamddenol i siopa a mwynhau pryd da o fwyd ynddi. Mae'n lleoliad delfrydol, felly, i gynnal Cyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2018.

Croeso i'n plith.

Gwendoline Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

Gareth Ioan
Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith

CYNGERDD COFIADWY

Ar nos Wener Mawrth 9fed yng Nghapel y Priordy, Caerfyrddin, cynhelir cyngerdd arbennig.



Cawn y fraint o groesawu i Gaerfyrddin, un o sêr y canu roc Cristnogol am bedwar degawd, Garth Hewitt.

Bu'n cyfansoddi a chanu caneuon dros heddwoch a chyfiawnder yn seiliedig ar ei brofiadau'n ymweld ac unieithu â phobloedd mewn ardaloedd o orthrwm, o wrthdaro ac o dlodi gan gynnig gobaith iddynt.

Cafodd Garth ei wneud yn Ganon anrhydeddus Eglwys Gadeiriol San Siôr yng Nghaersalem yn gydnabyddiaeth o'i waith dros y Palestinaid. Mae'r neges yn groes i'r graen, ond yn un y mae angen i ni ei chlywed ac ymateb iddi.

Ond noson o obaith a llawenydd hefyd fydd hon. Mae Garth yn cyfleu'r gobaith mewn caneuon fel, *"Just like a River"* ac *"On the road to freedom"* o blith y degau o albymau y mae wedi eu recordio.



Mae wedi perfformio nifer o weithiau o flaen degau o filoedd mewn gwyliau fel "Greenbelt" ac yn y "Grand Ole Opry" yn UDA.

Fe ddaw â'i hanesion a'i ganeuon yn awr i Gaerfyrddin mewn cyngerdd cofiadwy y bydd "Côr Seingar" hefyd yn rhan ohoni. Fe fydd cytganau nifer o'i ganeuon enwocaf ar y sgrin

fawr yn Gymraeg i'r gynulleidfa ganu gydag ef.

Mynnwch eich tocynnau'n awr o Siop y Pentan neu drwy gysylltu â meinir@cadwyn.com neu gan Heledd Tomos (☎07969124058)

Cyngerdd Yn Groes i'r Graen yn seiliedig ar y Bregeth ar y Mynydd

Noson o sgwrs a chaneuon
gyda

GARTH HEWITT

Caneuon o Gyfiawnder a Heddwch

CÔR SEINGAR



Nos Wener 9 Mawrth 2018 am 7
Y Priordy, Caerfyrddin

Tocynnau: £8 (Dan 11: £6)

heledd.tomos@codani.cymru (☎01559 384378) / Siop y
Pentan / meinir@cadwyn.com (☎01559-384378)


Hefyd

*Nos Sadwrn 10 Mawrth 2018 – Y Morlan, Aberystwyth gyda
Chôr Gobaith*

Trefnir gan "Coda Ni" fel rhan o daith trwy wledydd

Prydain "Yn Groes i'r Graen" a drefnir gan yr Amos Trust.

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS A'R BLWCH TOPIAU POTELI PLASTIG
YN Y CYNTEDD**

PYTHEFNOS MASNACH DEG

26 Chwefror – 11 Mawrth 2018



Annwyl Gyfeillion

Cymanfa 'Hanner Awr Dros Heddwch'

A fydddech chi mor garedig â thynnu sylw eich aelodau a chydabod - yn wir unrhyw un sy'n credu mewn byd di-drais - at y cais hwn?



Gwahoddiad ydyw i ymuno ag aelodau Cymdeithas y Cymod i ganu y tu allan i'r 'Ffair Arfau' a gynhelir yn y Motorpoint Arena yng Nghaerdydd, ddydd Mawrth, 27 Mawrth.

Bydd pobl yn ymgynnull y tu allan i'r Arena o 8 y bore, ond bwriedir cynnal y Gymanfa 'Hanner Awr Dros Heddwch' rhwng **9:30 a 10:00** y bore.

Y gobaith yw y daw criw ynghyd.

Arferid cynnal y Ffair Arfau ym Mryste, ond safodd trigolion y dref honno yn gadarn yn ei herbyn. Mae'n loes calon bod ein prifddinas ni wedi bod yn ddigon hapus i roi cartref iddi am dair blynedd o'r bron.

Os ydych chi, fel ni, yn teimlo nad yw hi'n briodol bod Cymru'n dod yn bencadlys gwerthu bomiau a phob math o ddyfeisiadau treisgar eraill, yna dewch os gwelwch yn dda.

Bydd croeso i eosiaid a brain fel ei gilydd.

Yn ddiffuant

Mererid Hopwood
Cadeirydd Cymdeithas y Cymod



Beth am droi at cyfundeb.com?

Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin





AWR BWYSICAF MIS CHWEFROR YN SALEM

Fore Sul y 18fed, arweiniwyd y gwasanaeth gan y **Parchedig Beti- Wyn James!!!!**

Yn y prynhawn, trefnwyd cyfarfod gan Gyngor Eglwysi'r Dref - 'Yr Eglwys yn y Gymdeithas' - Cyflwyniad i iechyd meddwl: Pa gymorth sydd ar gael? Beth allwn ni ei wneud? Y siaradwraig wadd oedd Mai Llinos (Cwnsela) .

Yn dilyn yr oedfa, cynhaliwyd cyfarfod i sôn yn benodol am y cynlluniau i sefydlu Ystafell Fyw yng Nghaernarfon.

PARTI CREMPOG

Cafwyd llond padell ffrio o hwyl ym mharti crempog yr Ysgol Sul. Yn rownd derfynol y gystadleuaeth fflipio crempog roedd Wil ac Alys, ond Alys oedd y **BENCAMPWRAIG!**



CYFARFODYDD Y GRAWYS

Bydd cyfarfodydd y Grawys yn dechrau'r wythnos yma a dyma rai o'r themâu: Sefydlu Awdurdod, Datguddio'r Gwir ac Amser Penderfynu.

'NABOD EICH EMYNAU!

Llanwch y bylchau gwybodaeth

1	C									
2	E									
3	N									
4	H									
5	I									
6	N									
7	E									
8	N									

CLIWIAU

1. _____ heddiw mewn cywilydd
2. _____ ynof dân
3. _____ pechadur trist
4. _____ wyf fi am fod Iesu'n y nef
5. _____ mawr y byd
6. _____ mae gwybodaeth
7. _____ gwan, paham yr ofni
8. _____ i'th ŵydd, O Arglwydd Iôr



8 allan o 8	Da iawn
4 i 8	Addawol
Dan 4	Angen eich rhoi dan fesurau arbennig. Dylai'ch Cynllun Gweithredu gynnwys troi at Caneuon Ffydd am chwarter awr bob nos am chwe mis cyn mynd i gysgu

Atebion y tro nesaf



TALWRN Y BEIRDD CAERFYRDDIN

**Clwb Pel-droed Tref Caerfyrddin
*Nos Fercher 28 Chwefror 2018***

YN CYNRYCHIOLI'R PRIORDY

**Peter Hughes Griffiths, Elinor W Reynolds
a Beti-Wyn**



**Hefyd - ond heb fod yn y llun
Aled Evans**



COFIO CRISTION ARALL AR FAWRTH Y CYNTAF

BU farw Dewi Sant ar Fawrth y Cyntaf 589 a chofiwn amdano ar y diwrnod hwnnw bob blwyddyn.

Cristion arbennig arall a fu farw ar Ddydd ein Nawddsant, ond ym 1981 y tro hwn, oedd y pregethwr, yr arweinydd Cristnogol, yr esboniwr a'r awdur, y Dr Martyn Lloyd-Jones neu'r '*Doctor*' fel y byddai llawer yn ei adnabod. Byddai pobl Caerfyrddin yn gyfarwydd iawn â'r person rhyfeddol hwn gan iddo ddod am flynyddoedd lawer bob mis Medi i bregethu i Gapel Heol Dŵr a'r adeilad dan ei sang. Adroddir yr hanes yn y gyfrol *Capel Heol Dŵr Caerfyrddin 1813-2013 (golygydd Marina Thomas)*. Ym 1977 cafodd Heol Dŵr gyfle i ddathlu'r hanner canfed dro y bu'n pregethu'n flynyddol yno.



Ganed David Martyn Lloyd-Jones yng Nghaerdydd ar 20 Rhagfyr 1899 ond symudodd ei deulu i Langeitho ym 1904 i gadw Siop yr Albion yn y pentref ac yn ddiweddarach i sefydlu hufenfa yno. Gadawodd y teulu am Lundain ym 1914 pan fethodd y busnes.

Roedd Martyn Lloyd-Jones yn un o dri brawd - bu farw Harold yn ystod clefyd pandemig y fflw ym 1918; aeth Vincent ymlaen i fod yn farnwr yr Uchel Lys.

Cafodd ei addysgu'n lleol yn Llangeithio ac Ysgol Sir Tregaron cyn dod yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg St Marylebone yn Llundain rhwng 1914-1918. Aeth ymlaen wedyn i Ysbyty Sant Bartholomew fel myfyriwr meddygol cyn dechrau gwaith fel cynorthwy-ydd i'r Meddyg Brenhinol Syr Thomas Horder. Enillodd MD ym Mhrifysgol Llundain a dod yn aelod yng Ngholeg Brenhinol y Meddygon. Ond daeth yr alwad i fod yn bregethwr a gadawodd y meddyg ifanc disglair yrfa o fri mewn meddygaeth a dychwelyd i Gymru ym 1927 i ofalu am achos bach o eiddo Symudiad Ymosodol y Methodistiaid Calfinaidd yn Sandfields yn Aberafan. Erbyn hynny roedd wedi priodi â Bethan Phillips yng Nghapel Charing Cross, Llundain, lle roedd teuluoedd y ddau'n aelodau. Roedd Bethan yn ferch i arbenigwr llygaidd o fri yn Harley

Street a chymhwysodd yn feddyg yn yr un coleg â D Martyn Lloyd-Jones. Yn ddiweddarach cawsant ddau o blant, Elizabeth ac Ann.




Arhosodd D Martyn Lloyd-Jones yn Aberafan rhwng 1927 a 1938 cyn dychwelyd i Lundain i weinidogaethu yng Nghapel Westminster. Bu'n cydweithio â'r Parchedig Ddr G Campbell Morgan (mab i Gymro) ar y dechrau gan ei olynu'n unig weinidog y capel ym 1943 ar ôl iddo ymddeol. Byddai pobl yn tyrru yno wrth y miloedd yn ystod ei weinidogaeth, nid yn unig ar y Sul ond hefyd ar Nos Wener i'r Dosbarth Astudiaethau Beiblaidd. Arhosodd yng Nghapel Westminster tan 1968 cyn ymddiswyddo, yn dilyn llawdriniaeth drom, a threulio gweddill ei fywyd yn pregethu'n ehangach a pharatoi'i bregethau ar gyfer y wasg.

Mae D Martyn Lloyd-Jones yn cael ei ystyried yn un o bregethwyr mwyaf yr ugeinfed ganrif. Byddai'n pregethu'n aml iawn yn yr Unol Daleithiau. Byddai'n disgrifio'r rhodd o bregethu fel '*rhesymeg ar dân*'. Ac roedd tân yn ogystal â rhesymeg yn ei bregethu Beiblaidd grymus. Roedd o argyhoeddiadau efengylaidd a gwrth-eciwmennaidd cryf. Bu'n ddylanwad mawr yn y Mudiad Efengylaidd yng Ngwledydd Prydain a thu hwnt yn yr ugeinfed ganrif. Byddai'n annog gweinidogion efengylaidd i adael yr hen enwadau a chychwyn eglwysi newydd.


Cyhoeddodd yn helaeth iawn, yn cynnwys llawer o'i bregethau a chyfrol yn dwyn y teitl *Preaching and Preachers* y bu bri mawr arni.

Roedd yn adnabyddus yn fyd-eang a throswyd ei weithiau i sawl iaith. O'i gymharu â'i ddeunydd Saesneg, prin oedd ei gynnyrch Cymraeg ond cyhoeddwyd *Llais y Doctor: Detholiad o Waith Cyhoeddedig Cymraeg D Martyn Lloyd Jones* gan Wasg Bryntirion adeg dathlu canmlwyddiant ei eni ym 1999.




Pregethodd Martyn Lloyd-Jones am y tro olaf ar 8 Mehefin 1980 yng Nghapel y Bedyddwyr, Barcombe, yn Nwyrain Sussex. Bu farw yn Ealing yng ngorllewin

Llundain ar 1 Mawrth 1981 a chafodd ei gladdu yng Nghastellnewydd Emlyn. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch amdano yng Nghapel Westminster yn ddiweddarach.



Mae'n rhyfedd meddwl fel y bu Llangeitho'n feithrinfa i ddau Gristion hynod o nodedig a dylanwadol, sef **Daniel Rowland** yn y ddeunawfed ganrif a D Martyn Lloyd-Jones yn yr ugeinfed ganrif. Ym mis Rhagfyr 2012, dadorchuddiwyd plac er cof am D Martyn Lloyd-Jones ar wal ei gartref yn Llangeithio gan Angharad Marshall, gorwyres iddo.

Roedd D Martyn Lloyd Jones yn ystyried yr efengyllydd Billy Graham, a gollwyd yn ddiweddar, yn ŵr gonest didwyll a diffuant ond doedd e ddim ar yr un donfedd ag e'n union ychwaith. Credai mai dim ond adfywiad, sef ymweliad yr Ysbryd Glân, yn wahanol i ymgyrch efengylaidd, oedd yn gallu trafod sefyllfa'r eglwys a'r byd. Doedd e ddim mor hapus ag ymgyrchoedd trefnedig, yn arbennig yr elfen o alw pobl ymlaen fel yng ngrhwsadau Graham.




Bu D Martyn Lloyd-Jones yn destun sawl cyfrol gan awduron fel yr Athro Eryl W Davies, Iain H Murray, a'i ŵyr Christopher Catherwood, mab Elizabeth (Lloyd-Jones) a'i phriod Syr Frederick Catherwood, gwleidydd a chyn-aelod yn Senedd Ewrop. Ysgrifennwyd *Far Above Rubies*, sef bywgraffiad Bethan Lloyd-Jones, ei briod, gan Lynette G Clark yn 2015.



Bu D Martyn Lloyd-Jones yn ddylanwad mawr ar y **Dr R M (Bobi) Jones**, y Cristion o Gymro a'r llenor a'r ysgolhaig disglair, a gollwyd ddiwedd Tachwedd 2017. Roedd Bobi Jones, fel y 'Doctor', yn gogwyddo'n gryf at Galfiniaeth. Ac yn ôl Rhys Llwyd, bu'n gŵyn gyson ganddo nad oedd D Martyn Lloyd-Jones yn cael sylw haeddiannol yng Nghymru o ystyried mai ef oedd yr awdur Cymreig â'r gwerthiant mwyaf ar ei gyfrolau'n rhyngwladol.

FFILM Y PRIORDY

Mae Undeb yr Annibynwyr
Cymraeg newydd ryddhau ffilm ar y
Priordy!



Mae'r ffilm yn ffrwyth blwyddyn o waith paratoi a
chydweithio rhwng yr Undeb a'r Priordy.



Cynhyrchwyd y ffilm gan Rhodri
Darcy, Rhydaman, Swyddog
Hyrwyddo a Chyfathrebu'r Undeb.
Treuliodd Rhodri'r rhan helaethaf o'i
yrfa ym myd darlledu cyn ymuno â
staff yr Undeb. Rydym yn ddyledus
iawn iddo am ei
waith trwyadl a
chydwybodol.



Ymgais yw'r ffilm i ddarlunio blwyddyn
ym mywyd a gwaith Eglwys y Priordy.

Os ydych am weld y ffil+m, yna
trowch at Wefan yr Undeb neu You
Tube!



Hwyl gyda'r gwyllo!

BETH AM DROI AT WEFAN
COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG?
colegyrannibynwyr.cymru



Y TYST
50c y rhifyn!
Cysyllter â Sulwyn Thomas

TUDALEN BLAEN

Rheswm Luned Thomas am ei dewis...

Canys felly y carodd Duw y byd... (loan 3:16)

Cefais y faint pan oeddwn i'n ddisgybl yn Ysgol Bro Myrddin o astudio Ysgrythur fel pwnc lefel A dan ofal y Parchedig Desmond Davies.



Roedd pump ohonom ni ferched yn astudio'r pwnc a chawsom ddwy flynedd ddiddorol yn astudio Efengyl loan a hanes y Diwygiad Protestannaidd yn bur fanwl.

Mae'n bosib ein bod ni'n pump wedi gwylltio'n hathro a britho'i wallt ar brydiau ond cawsom lawer o hwyl yn trafod pynciau'r dydd ac mae gennyf atgofion melyn iawn am y cyfnod hwn.

Mae'r adnod rwyf wedi'i dewis yn un yr oeddwn wedi'i dysgu ar fy nghof wrth astudio Efengyl loan, er nad wyf yn siŵr am ba reswm y dewiswyd y cyfieithiad traddodiadol ac nid un mwy diweddar.

Wrth i ni droi at gyfnod y Grawys, mae'r adnod yn fy atgoffa am aberth Iesu trosom ac o gariad Duw atom.



PYTHEFNOS MASNACH DEG

26 Chwefror – 11 Mawrth 2018





DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Mawrth		Ebrill	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Alun Charles	Wyn Evans	Alun Charles	Wyn Evans



BLODAU



Mawrth	4	Enid Wyn Jones	Ebrill	1	Glenys Thomas
	11			8	
	18	Jill Edwards		15	Enid Evans
	25			22	
				29	Jayne Jones



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Mawrth	4	Bore	Rhian Pritchard-Franklin a Rachel Daviesi
Ebrill	1	Bore	Catrin Heledd a Jayne Jones



YMWELWYR



Mawrth / Ebrill	Rhian Evans ac Eirlys Jones, Henry a Bronwen Wilkins
-----------------	--



DARLLENWYR



Mawrth	4	Ieuenctid yr Eglwys	Ebrill	1	Chris Lloyd
	11	Jayne Woods		8	Miriam Wyrwoll
	18	Mari Jenkins		15	Peter Hughes Griffiths
	25			22	
				29	Dr Llinos Williams



CYHOEDDWYR



Mawrth	Adrian Evans	Ebrill	Wyn Tegryn Evans
--------	--------------	--------	------------------



BRAINT oedd cael derbyn saith aelod newydd yn ein Hoedfa Gymun ym mis Chwefror. Roedd pump ohonynt yn blant yr Eglwys wedi'u codi yn ein Hysgol Sul, sef Iestyn O'Leary, Heol Pentremeurig, Lucy Jones, Hafod Cwnin, Lleucu Owen. Bronwydd, Rhiannon Jones, Peniel a Steffan Jones, Cnwc y Gwili, Heol Abergwili. A daw John a Mair Meredith, Hafan Tywi, atom o'r Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr. Maent yn gyfarwydd iawn â Chaerfyrddin a'r cylch ac eisoes yn addoli'n gyson gyda ni. Croeso cynnes i'r saith i'n teulu yn y Priordy.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth yno, sef Catrin Davies, Bancycapel, Rhian Mair Evans, Rhodfa'r Gogledd, John Maddox, Hafan Tywi, John Gibby, Llanllwch a Heather Williams, Heol Dyfnallt. Dymunwn yn dda iddynt a phawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.

Bu nifer o'n haelodau'n ddiwyd iawn yr wythnosau diwethaf hyn, fel y gwelwyd ar y cyfryngau ac yn y papurau newydd. Roedd Ilun Aled Evans yn **Cwlwm** fel enillydd y Gadair yn Eisteddod Flynyddol yr Ysgol Farddol ar achlysur yr Hen Galan. Roedd Ilun Peter Hughes Griffiths yn y **Carmarthen Journal** mewn perthynas â Dydd Miwsig Cymru ar 9 Chwefror pan fu canolfannau hamdden ledled Sir Gâr yn chwarae cerddoriaeth Gymraeg ar eu rhestrau chwarae.



Bu yntau a Siân Axford yn siarad am hyn ar **Heno** hefyd. Roedd Ilun yn y **Journal** a **Cwlwm** o Rhian Mair Evans a Meinir Lloyd, aelodau yng Nghangen **Merched y Wawr**

Caerfyrddin, yn cyflwyno rhodd o £650, sef elw'r Plygain a gynhaliwyd yng Nghapel Heol Awst cyn y Nadolig i Uned Cymotherafi, Adran Oncoleg, Ysbyty Glangwili. Bu Sulwyn Thomas ar y **Post Cyntaf** yn siarad am ddathliad arbennig, sef hanner can mlynedd er dechrau'r rhaglen ffonio i mewn gyntaf ar y **BBC**.



Bu Catrin Haf Williams ar **Bwrw Golwg** yn trafod dylanwad testunau beiblaidd ar gwestiwn statws merched. yn adolygu'r papurau ar **Raglen Dewi Llwyd** ac yn sgwrsio â Dylan Iorwerth ar **Dan yr Wyneb** am ymddangosiad Iesu o ran pryd a gwedd (yn dilyn cyhoeddi cyfrol Joan Taylor, **What did Jesus look**

like?). Un arall a fu'n adolygu'r papurau oedd Rebecca Hayes - ar. **Y Post Cyntaf**. Bu rhai o'n hieuencid yng Nghôr Merched Hŷn Ysgol Bro Myrddin ar **Noson Lawen** ar **S4C**. A chlywyd y Dr Huw Michael ar y **Post Cyntaf** ddwywaith, y naill dro'n trafod Mesur newydd y Llywodraeth i osod uchafbris ar brisiau nwy a thrydan, a'r tro arall yn sôn am rybudd y Grid Cenedlaethol am brinder nwy.

AC I GLOI. Ilongyfarchiadau mawr i Heledd Mai Jones ar gael ei dewis yn Aelod Iau y Flwyddyn yng Nghlybiau Ffermwyr Ifainc Sir Gâr. Mae Heledd yn un o aelodau diwyd Clwb Ffermwyr Ifainc Dyffryn Tywi.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ebrill i'n
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Tina Charles ☎ 01267 236037

DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL Y PRIORDY

Nos Wener, 23 Mawrth 2018 am 6.30

RIHYRSAL

Nos Fawrth. 20 Mawrth 2018 am 6.30

CWMNI MYRDDIN

yn cyflwyno

DAU HANNER

BRAWD

gan

Nan Lewis ac Eric Jones

Theatr y Lyric Caerfyrddin

Nos Iau a Nos Wener 26 /27 Ebrill 2018
am 7.30

Tocynnau: £12 drwy ☎0845 226 3510





Y SULLIADUR



Mawrth	4	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
Sul y Mamau	11	<i>Bore</i>	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	18	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog <i>Casgliad at Goleg Undeb yr Annibynwyr Cymraeg</i>	
Sul y Blodau	25	<i>Bore</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog	

Ebrill Sul y Pasg	1	<i>Bore P'nawn</i>	Cwrdd Undebol i'r Ofalaeth yn y Priordy gyda'n Gweinidog Cwrdd Undebol i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Gymuned ym Mancyfelin am 3	Cymun
	8	<i>Bore</i>	Y Parchedig John Gwilym Jones Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig John Gwilym Jones	
	15	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Yn ymuno â'r Tabernacl am 5 ar gyfer Oedfa a The Amnest	
	22	<i>Bore</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog	
	29	<i>Bore P'nawn</i>	Ein Gweinidog Te Parti <i>Aching Arms</i> yn y Festri am 4. <i>Manylion y tu mewn.</i>	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant
OD – Oedfa Deulu (Sul y Mamau)

Mawrth				Ebrill				
4	11	18	25	1	8	15	22	29
✓	OD	✓ PIP	CP	-	-	✓ PIP	CP	✓

CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL Y PRIORDY

SWPER GŴYL DEWI

yng ngofal y dynion

NOS LUN, 5 MAWRTH 2018 am 7.00 yn y Festri

Pawb i ddod â'i fasn a'i lwy ei hun

Pris: £5 (Plant am ddim)

